


Pamffled y Tymor *Yr haf*

# THEATR BRYCHEINIOG

*Mehefin–Medi*
2024

www.brycheiniog.co.uk
Swyddfa Docynnau: 01874 611 622
Theatr Brycheiniog Cyf, Canal Wharf, Brecon, Powys. LD3 7EW

Charity number | Rhif elusen 1005327

Theatr Brycheiniog | theatrbrycheiniog | @Brycheiniog

# CROESO

*Welcome*



**Yng nghalon Bannau Brycheiniog ar lan cei deniadol Camlas Mynwy ac Aberhonddu, mae Theatr Brycheiniog yn gynnes a chroesawgar, gan gynnig rhaglen uchelgeisiol o ddigwyddiadau proffesiynol a chymunedol.**

Mae ein caffi ar lan y gamlas yn lle gwych i ymlacio ynddo, boed hynny cyn dechrau sioe, i gael brecwast, cinio neu goffi a theisen a wnaed gartref; mae gennym fwydlenni ar gyfer pob achlysur.

## Helo/Shwmae!

Diolch o galon i bawb a barodd fod ein tymor y gwanwyn yn un i'w gofio; mae'r haf yn edrych yr un mor llawn dop!

Cyn bo hir, bydd gennym ddangosiadau byw o'r Tŷ Opera Brenhinol ac o Nye gan National Theatre Live; drama newydd o Gymru sy'n adrodd hanes bywyd Aneurin Bevan, na ddylid mo'i cholli! Ymysg amrywiaeth ardderchog o gerddoriaeth fyw daw cerddorfa Opera Brenhinol Cymru'n ôl o'r diwedd gyda Croesi Ffiniau, a hefyd Finally…Phil Collins ac Oh What A Night! Ym mis Gorffennaf edrychwn ymlaen at gynnig cartref i Ballet Cymru, gyda'u cynhyrchiad rhyfeddol o Romeo a Juliet, yn ogystal â This Flight Tonight, teyrnged i gerddoriaeth anhygoel Joni Mitchell.

Bydd ein grwpiau cymunedol rhagorol yn cyflwyno ystod o gerddoriaeth a dawns, gan gynnwys Seren Stars' Shine, Broadway to Brecon a Chyngerdd Blynyddol Academi Ddawns Aberhonddu a Chanolbarth Cymru. Daw'r Clwb Comedi'n ôl ar gyfer noson olaf yr haf ym mis Mehefin, a bydd Gŵyl Zulu yma eto ym mis Gorffennaf. Mae gan deuluoedd lawer i ddewis o'u plith, gan gynnwys The Misadventures of Pinocchio a The Great Insect Games.

Bydd mis Awst a Medi'n edrych ychydig yn wahanol eleni am y bydd ein hawditoriwm ar gau er mwyn ailosod y system trin awyr a'r goleuo, diolch i Waith Cronfa Codi'r Gwastad, gan sicrhau y gallwn ni barhau i ddarparu'r profiad o safon uchel a ddisgwylir gan ein cynulleidfaoedd. Bydd rhaglen mis Medi'n sicr o'ch cael yn ysu i ddychwelyd am ragor, gyda theatr sy'n cynnwys Taith Sherman o'r ddrama Gymraeg Iphigenia yn Sblot, a heb anghofio Noson gyda Shane, Lee a Hookie.

Newyddion cyffrous! Rydyn ni'n lansio ein cynllun Cyfeillion a Noddwyr newydd, y gallwch ddysgu mwy amdano ar dudalen 12. Rydyn ni wedi ein hysbrydoli gan ein hamgylchfyd hardd ar gyfer Lefelau Ffrindiau: Pen y Fan, Corn Du a Chribyn, copaon uchaf Bannau Brycheiniog, ac ailenwyd ein Lefel Noddwyr yn Seren i anrhydeddu ein statws awyr dywyll.
Edrychaf ymlaen at eich gweld yn y theatr cyn bo hir.

*Eleri B. Jones* Cyfarwyddwr y Theatr

Mae taflen y tymor hwn yn dod mewn fformat ychydig yn wahanol… Rhestrir sioeau yn nhrefn eu dyddiad, ac fe'u trefnir yn ôl lliw o ran genre. Mae'r allwedd ar gyfer lliwiau'r genres isod.

SGRINIO BYW | CYMUNED | CERDDORIAETH FYW | FFILMIAU A DARLITHIAU

COMEDI | DAWNS | TEULUOEDD AC YSGOLION | THEATR & SIOEAU CERDD

The Bohemians Theatre Company present

# THE MISADVENTURES OF PINOCCHIO
## THE RADICAL ROBOT GIRL



Wedi'i gosod mewn Cymru ôl-apocalyptaidd, cawn gyfarfod merch robot radical o'r enw Pinocchio. Mae hi'n byw mewn byncer bach clyd gyda'i thad annwyl Joe. Mae popeth yn normal. Wel, mor normal ag y medrith pethau fod pan mae'r byd wedi dod i ben...Ond un diwrnod, mae Pinocchio yn darganfod rhywbeth fydd yn newid ei bywyd am byth...

**Maw 4 Meh | 1pm**

**Tocynnau £15** + Ffi Archebu.

Gostyngiadau ar gael

**Canllaw oed: 7+ (Key Stage 2+)**

# Royal Opera House
## Message in a Bottle


*Sgrinio Byw*

Y cynhyrchiad dawns theatrig nodedig gan Artist Cysylltiol yn Sadler's Wells, Kate Prince, wedi'i osod i gerddoriaeth yr artist sy'n enillydd Grammy, Sting, wedi cael ei ffilmio ar gyfer ei ryddhau mewn sinemâu mewn partneriaeth â Sadler's Wells ac Universal Music UK..

**Maw 4 Meh | 7.20pm** (Encore)

**Tocynnau £17.50** + Ffi Archebu.

Gostyngiadau ar gael




Dewch i gwrdd â Rala Rwdins, Rwdlan, Dewin Doeth, Dewin Dwl, Llipryn Llwyd, Strempan a heb anghofio Mursen y gath, ac ymuno yn yr helynt wrth iddynt fynd ar eu gwyliau. Ac fel arfer yng nghwmni'r criw mae yna gastiau a thriciau gyda digon o ganu a chwerthin!

**Please note this is a Welsh language production.**

**Canllaw oed: 3+ (Key Stage 1)**

**Gwe 7 Meh | 10am**

**Tocynnau £13** + Ffi Archebu.

Gostyngiadau ar gael

Mae And Finally... Phil Collins yn cael eu hystyried fel band teyrnged Phil Collins gorau Prydain, gyda'r canwr blaen Chris O'Connell yn dod â charisma a nodweddion y dyn a arweiniodd Genesis ac sydd wedi gwerthu 150 miliwn o albymau yn ystod ei yrfa fel unawdydd..

**Sad 8 Meh | 7.30pm**

**Tocynnau £24.50** + Ffi Archebu.

Gostyngiadau ar gael




# Royal Opera House *Sgrinio Byw*
## Andrea Chenier

Jonas Kaufmann sy'n arwain llwyfannu syfrdanol David McVicar, dan arweiniad ei gydweithredwr ers oesau Antonio Pappano – sy'n arwain drama hanesyddol epig Giordano am chwyldro a chariad cudd yn ei gynhyrchiad olaf fel Cyfarwyddwr Cerdd Yr Opera Brenhinol.

**Maw 11 Meh | 7.15pm** (Live)
**Sul 16 Meh | 2pm** (Encore)

**Tocynnau £17.50** + Ffi Archebu.
Gostyngiadau ar gael




# National Theatre *Sgrinio Byw*
## Nye

**Iau 13 Meh | 7pm** (Encore)

**Tocynnau £17.50** + Ffi Archebu.
Gostyngiadau ar gael

Drama newydd gan Tim Price, cyfarwyddwr Rufus Norris. Michael Sheen yw Nye Bevan ar daith swreal a syfrdanol drwy fywyd a gwaddol y dy n a drawsnewidiodd wladwriaeth les Prydain a chreu'r GIG.
Ac yntau'n wynebu marwolaeth, mae atgofion dyfnaf Aneurin 'Nye' Bevan yn ei arwain ar siwrne sy'n chwalu'r meddwl yn ôl drwy'i fywyd; o'i blentyndod i dorri glo dan ddaear, Senedd San Steffan a chroesi cleddyfau â Churchill.







Nawr yn y ddegfed flwyddyn, mae myfyrwyr o Grŵp Colegau CnPT, Coleg Bannau Brycheiniog ac Ysgol Penmaes wedi cydweithio ar brosiect theatr i gynhyrchu perfformiad llachar ar themâu eu hoff gerddoriaeth, cân a dawns.

**Gwe 14 Meh | 1.15pm**

**Tocynnau £7.25** + Ffi Archebu.
Gostyngiadau ar gael

MEHEFIN 2024

**Gwe 14 Meh | 8pm**


**Tocynnau £14** + Ffi Archebu.
**Cyrri £15 £15 Archebu ymlaen**

## Bwyta Yfed Chwerthin COMEDI CLWB | COMEDY CLUB Eat Drink Laugh

Cyn eich noson o chwerthin bydd Caffi Theatr B! yn cyflwyno noson gyrri. Gweinir cyrri cartref gyda dewis cig a figan. Ffoniwch ein swyddfa docynnau ar 01874 611 622 i rag-archebu eich bwyd. Bydd ein bar caffi ar agor drwy'r nos a gellir archebu diodydd o'r bar yn yr awditoriwm yn ystod y sioe. Cadwch lygad am fargeinion a chynigion ar ddiodydd ar y dydd.




**Gan weithio mewn partneriaeth â Little Wander, byddwn ni'n dod â thri digrifwr atoch o gylch comedi'r du.**




**Sad 29 Meh | 7.30pm**

**Tocynnau £18.50** + Ffi Archebu.

**Noson yn llawn o ganu a dawnsio o rai o hoff sioeau cerdd Broadway a'r West End ddoe a heddiw.**

Bydd sêr Aberhonddu'i hun, y Westenders, a Loud Applause Rising Stars yn perfformio rhai o'u hoff ganeuon o Sioeau Cerdd amrywiol. Melanie Barker, Rachel Noble, Poise.dance, Helen Jones, Cantorion Pontsenni.

GORFFENNAF 2024

# Romeo a Juliet




**Maw 2 Gorf | 7.30pm**
**Tickets £19** + Ffi Archebu.
Gostyngiadau ar gael

**Mer 3 Gorf | 1.30pm**
**Tocynnau £12** + Ffi Archebu.

PHOTOGRAPHY: © SLEEPY ROBOT PHOTOGRAPHY

***From forth the fatal loins of these two foes.***
***A pair of star-crossed lovers take their life***

Cwmni buddugol Gwobr Cylch y Beirniaid, Ballet Cymru, yn cyflwyno addasiad eithriadol o gampwaith Shakespeare, "Romeo a Juliet".

Mae ymladd dwys, deuawdau angerddol a themâu cyffredinol yn atseinio trwy goreograffi dramatig a thelynegol. Mae'r gwisgoedd cywrain a'r tafluniadau fideo eithriadolyn creu byd o berygl a chyffro, lle caiff dau gariad ifanc eu dal mewn hen elyniaeth.
"Mae "Romeo a Juliet" yn cynnwys coreograffi gan Gyfarwyddwyr y cwmni, Darius James OBE ac Amy Doughty, a gwisgoedd gan Georg Meyer-Wiel (www.meyerwiel.com) sydd wedi creu gwisgoedd ar gyfer rhai o gwmnïau mwyaf blaenllaw'r byd, gan gynnwys Rambert Dance Company ac Australian Dance Theatre..

# Crossing Borders with WNO Orchestra




**Taith ysbrydoledig trwy dapestri cerddorol cyfoethog Canol Ewrop.**

Cymerwch sedd ac ymunwch â Cherddorfa WNO a Chyfarwyddwr Cerddoriaeth WNO Tomáš Hanus wrth iddynt gychwyn ar daith gyffrous trwy rai o gampweithiau gorau Canol Ewrop, gan ddechrau gyda'r Agorawd fuddugoliaethus o The Bartered Bride gan Smetana. Gan ddathlu'r balchder cenedlgarol a ysgogodd yn Tsiecia yn y 19eg ganrif, mae'r darn yma'n llawn egni ac elfennau gwerin rythmig.

**Iau 4 Gorf | 7pm**

**Tocynnau £29** + Ffi Archebu.
Gostyngiadau ar gael




**Mae OH WHAT A NIGHT! yn mynd â chi'n ôl drwy amser ar daith gerddorol drwy yrfa eithriadol Frankie Valli & The Four Seasons.**

Mae OH WHAT A NIGHT! Yn cyfuno personoliaethau deniadol, lleisiau rhagorol, harmonïau slic a symudiadau dawns mwy slic fyth mewn sioe sy'n llawn o egni ac atgofion, sydd wastad yn gadael y gynulleidfa'n ysu am ragor.
Peidiwch â cholli'r dathliad eithaf o un o fandiau roc a rôl mwyaf y byd!

**Sad 6 Gorf | 7.30pm**

**Tocynnau £27** + Ffi Archebu.
Gostyngiadau ar gael

# Mid Wales Dance Academy Annual Showcase

**Sad 13 Gorf | 6pm**
**Sul 14 Gorf | 2pm & 5pm**

**Tocynnau £16** + Ffi Archebu.
Gostyngiadau ar gael







Bydd y Corâl Zulu Brenhinol yn cyflwyno bywyd ac amseroedd y BRENIN ZWELITHINI kaBHEKIZULU, mewn perfformiad gan 30 o leisiau sy'n cynnwys Tywysogion a Thywysogesau'r Teulu Brenhinol, Morynion Zulu a Gwarchodluoedd Zulu ym mhresenoldeb y Frenhines Nompumelelo Zulu. Mae'r perfformiad hwn yn addo bod yn ddigwyddiad cerddorol gwirioneddol wych fydd yn arddangos y berthynas arbennig sy'n bodoli rhwng pobl Brycheiniog a'r bobl Zulu.

**Iau 18 Gorf | 7.30pm**

**Tocynnau £20** + Ffi Archebu.
Gostyngiadau ar gael




Fel rhan o Ŵyl Gorawl Aberhonddu a Chydweithrediad Ewyllys Da'r Zulu, mae'r Corâl Zulu Brenhinol chwedlonol yn ymuno â'r ffefrynnau lleol Côr Meibion Aberhonddu a'r Cylch.
Dewch i glywed ensemble o 30 llais sy'n cynnwys Tywysogion a Thywysogesau'r Teulu Brenhinol, Morynion Zulu a Gwarchodluoedd Zulu ynghyd â chôr meibion Cymreig o'r safon uchaf mewn cyd-gyflwyniad eithriadol o ddiwylliant a chân.

Mae'r Corâl Zulu Brenhinol yn ymweld ag Aberhonddu fel rhan o'r Cydweithrediad

**Gwe 19 Gorf | 7.30pm**

**Tocynnau £20** + Ffi Archebu.
Gostyngiadau ar gael



## Tam Lin Retold

### Sioe Adrodd Stori newydd gan Corinne Harragin

Efallai bod y faled yn adnabyddus fel Tam Lin, ond dim ond rhan o'r peth yw ef. Mae Tam Lin Retold, a ddisgrifiwyd gan gynulleidfaoedd fel 'grymus', adfywiol' a 'llawen', yn gasgliad o straeon hudol a ffraeth sy'n archwilio lleisiau di-glod chwedloniaeth Albaneg/Saesneg.

**Mer 24 Gorf | 7.30pm**

**Tocynnau £15** + Ffi Archebu.



## This Flight Tonight

### Teyrnged i Gerddoriaeth Joni Mitchell

Mae'r cantorion/gyfansoddwyr nodedig Zervas & Pepper yn cyflwyno 'This Flight Tonight', teyrnged acwstig fyw bum darn i gerddoriaeth Joni Mitchell..

**Sul 28 Gorf| 7.30pm**

**Tocynnau £22** + Ffi Archebu.

AWST 2024




**Sad 24 Awst | 1pm & 3pm**

**Tocynnau FREE**

*Am ddim*

## Outdoor Event

**Beth am gael picnic?**
**Mynnwch ginio têc-awê o'n caffi.**

**Flex your muscles and practise your lunges, it's time for the Great Insect Games!**
Dewch i brofi hwyl yr ŵyl a chymerwch ran yn y gemau byrbwyll o dan ofal eich cyflwynwyr, y ddau griced direidus! Pwy fydd yn ennill y gystadleuaeth nofio, y pry cop neu'r wlithen?! Siwt siap fydd ar y pili pala wrth iddi geisio codi pwysau?! Ydy hi'n bosib i falwoden allu gwisgo menyg focsio?!

Llawenhewch ym miri mawr y seremoni agoriadol a chyd-ganwch Anthem Genedlaethol y Trychfilod yn y sioe lliwgar yma ar gyfer y teulu gyfan.

MEDI 2024




**Gwe 20 Medi | 7.30pm**

**Tocynnau £28** + Ffi Archebu.
Gostyngiadau ar gael

## An Audience with Shane, Lee & Hookie

Dyma dri phencampwr chwaraeon – cyn-chwaraewyr rygbi rhyngwladol fu'n llachar eu gwasanaeth dros Gymru, ynghyd â'r Llewod a'r Gweilch. Ond nid dim ond pencampwyr gwych mohonynt – maen nhw'n ffrindiau pennaf hefyd.
Yn ystod y noson hon, cawn glywed am eu cyfeillgarwch ynghyd â straeon am eu bywyd ar y cae rygbi ac oddi arno. Heb os, dyma fydd noson i'w chofio.



## The Songs of Leonard Cohen

**Sul 22 Medi | 7.30pm**

**Tocynnau £15** + Ffi Archebu.

Y caneuon eithriadol hyn – wedi'u dinoethi, yn onest, yn ddiaddurn ac yn deimladwy..

'There is a crack in everything, that's how the light gets in' yw llinell fwyaf cofiadwy a phell-weledigaethol Cohen o'i gân ANTHEM. Os bu erioed frawddeg mewn barddoniaeth fodern i fyfyrio arni a rhoi gobaith a dealltwriaeth i bawb, dyma hi. Mae'r cyngerdd hwn yn dechrau ag ANTHEM.



Sherman Theatre

## Iphigenia yn Sblot

**Gadewch i Effie eich tywys chi trwy strydoedd Caerdydd heddiw. Camwch i'w byd. Cymerwch olwg ar sut rydyn ni'n byw, drwy ei llygaid hi.**

Mae bron i ddegawd ers i Iphigenia in Splott, drama ddirdynnol Gary Owen, ryfeddu'r byd: gan swyno cynulleidfaoedd ac adolygwyr fel ei gilydd, ennill gwobrau a dod yn llwyddiant ysgubol yn rhyngwladol. Yn fwy perthnasol nag erioed, mae un o ddramâu pwysicaf hanes theatr Cymru yn dychwelyd yn 2024, gyda chymaint i'w ddweud am fywyd yng Nghymru heddiw.

Gyda chefnogaeth Cyngor Celfyddydau Cymru

**Maw 24 Medi | 7.30pm**

**Tocynnau £15** + Ffi Archebu.

Gostyngiadau ar gael

Daw cynhyrchiad newydd pwerus Alice Eklund o addasiad Cymraeg Branwen Cennard â'r clasur tanbaid yn fyw unwaith eto. Yn llawn emosiwn amrwd, empathi, tosturi a chalon, mae Iphigenia yn Sblot yn ysgytwad. Dyma'r ddrama sydd ei hangen ar bob un ohonom ar hyn o bryd. Perfformiad yn y Gymraeg. Bydd capsiynau Saesneg ar gael ym mhob perfformiad.




*"Tight, Classy and Brassy"*

The Stage

**Sul 29 Medi | 7.30pm**

**Tocynnau £29** + Ffi Archebu.

Gostyngiadau ar gael

Mae parti Blues Brothers mwyaf ac anwylaf y byd ar gyrch unwaith eto; nid dim ond perfformio sioe mo hyn, rydyn ni'n cynnal parti, ac rydych chi wedi eich gwahodd! Ymunwch â ni am noson yn llawn o gerddoriaeth wych, dawnsio gwych ac ysbryd heintus y Blues Brothers.

# CYN BO HIR

| | |
|---|---|
| 4th Hydref | **Banff Mountain Film Festival** (Red Film Programme) |
| 11-14th Hydref | **Brecon Baroque Festival** |
| 16th & 17th Hydref | **National Dance Company Wales** |
| 26th Hydref | **Brecon Town Band:** Last Night of the Proms |
| 28th Hydref | **Legends of American Country** |
| 29th Hydref | **Black RAT Productions:** The Three Musketeers |
| 31st Hydref | **Theatr Iolo:** The Welsh Dragon |

# ORIEL

*Beth sy'n digwydd*



Ymweld â'n horiel 9-5pm Hwyrach ar rai nosweithiau sioeau!

## Community Gallery

15th Meh - 8th Gorf

**Arddangosfa Wythnos Ffoaduriaid**

Mae Wythnos Ffoaduriaid yn ŵyl sy'n dathlu cyfraniadau, creadigrwydd a gwytnwch ffoaduriaid a phobl sy'n ceisio noddfa. Dan arweiniad Lloches i Ffoaduriaid Y Gelli, Aberhonddu a Thalgarth, nod y prosiect yw creu Ysgol Noddfa.

## Celf yn y Bar

Arddangosfa o waith celf sy'n cael ei newid yn rheolaidd gan artistiaid a gweithwyr creadigol o'r ardal leol, ar gael i'w prynu.

Ewch i'n gwefan i ddysgu sut allwch chi arddangos eich gwaith gyda ni.

www.brycheiniog.co.uk

# BWYD A DIOD

Mae Caffi Theatr Brycheiniog yn lle bywiog a chroesawgar, sy'n cynnig dewis hyfryd o fwyd a diod ar gyfer cynulleidfaoedd ein theatr, aelodau'r gymuned, twristiaid, ymwelwyr a digwyddiadau a archebwyd sydd ag anghenion arlwyo hefyd. Ffynnonellir ein cynhwysion o safon o'r ardal leol ble bo'n bosib, a'u paratoi yn ein hadeilad gan dîm anhygoel ein cegin.

Mae teras y caffi'n lle heddychlon ac ymlaciol â golygfa braf dros lanfa Camlas Mynwy ac Aberhonddu, lle perffaith i eistedd a mwynhau eich bwyd wrth i chi amsugno'r awyrgylch a gwylio'r byd yn mynd heibio.







## Brecwast
Gweinir bwyd 9-11.30am

## Cinio
Gweinir bwyd 12-3.30pm

Gweinir **Bwydlen Gyda'r Hwyr** ar nosweithiau sioeau

## Platiau Antipasti
Rhagarchebwch ar gyfer nos-weithiau sioeau

# DOSBARTHIADAU

## Baby B!

**Mer 11am - 12pm**

Babi B! yw grŵp gweithgaredd rhiant a phlentyn Theatr B!, sy'n cynnig rhyfeddod y theatr o oedran ifanc. Mae Babi B! yn hwyl, yn rhyngweithiol ac yn gynhwysol, gyda chaneuon a rhigymau traddodiadol i ymuno ynddyn nhw, stori i ddiddanu a digon o gyfleoedd i gwrdd ag eraill a chymdeithasu.

Cysylltwch â'r Swyddfa Docynnau ar 01874 611 622 os oes gennych unrhyw anghenion ychwanegol.

## Pilates Based Back Care

**Llun 10.30 - 11.30am & Mer 5.45 - 6.45pm**

Please contact Katy Sinnadurai
01874 625 992 / 07807 851 970 or
katy.sinna@btinternet.com

## Pilates Based Body Conditioning

**Llun 11.45am - 12.45pm**

Please contact Katy Sinnadurai
01874 625 992 / 07807 851 970 or
katy.sinna@btinternet.com

## Brecon Town Concert Band

Nos Lun 7pm - 9pm

Band Cyngerdd Tref Aberhonddu
Croeso i chwaraewyr o bob gallu, o ddysgwyr ifanc i'r rheiny sy'n dychwelyd at gerddoriaeth ar ôl cael seibiant. Byddwn ni'n chwarae mewn cyngherddau dan do ac awyr agored drwy gydol y flwyddyn. Cysylltwch â Dave Jones ar 07779 390 954 neu e-bostiwch conductorbtcb@aol.com www.brecontownband.com

## u3a

**Iau 10am - 3.45pm**

www.u3asites.uk
Please contact Poppy Weston 07592 006052
penelopeweston63@gmail.com

Please contact our Box Office for more information about these classes: 01874 611 622

## Taiko Taster Sessions

**with Taiko Mynydd Du**

**Oedolion| 10.30am - 12.30pm**

Oedolion £15 + 75c ffi

**I'r teulu | 10.30am** - 11.30am

Oedolion £14.25 + ffi | £11.25 + ffi
Teulu o Bedwar £39 + ffi

Ydych chi eisiau gweneud rhywfaint o sŵn? Dewchi gael hwyl wrth chwarae drymi- au Taiko o Japan yn ystod dau ddiwrnod o weithdai blasu, sy'n addas i oedolion a phlant. Byddwch chi'n teimlo Wendi eich egnïo a'ch dyrchafu gan rythmau a sy- mudiadau corfforol Taiko. Bydd y drymaiu rhagorol hyn yn rhoiprofiad i chi sy'n ann- hebyg i ddim arall.

## Tai Chi Buddies

**Maw 10 - 11am**

Please contact andrewllynfi@hotmail.

## Uplift Choir

**Maw 12 - 1.30pm**

£6 / 5 +75c Ffi Archebu.
Archebwch 50c yr wythnos drwy archebu

Dan arweiniad Tanya Walker: Arweinydd Côr Alive & Kicking a Hyfforddwr Llais
Mynnwch saib o'ch bywyd neu waith amser cinio ddydd Mawrth a rhowch fesur iachusol o lesiant i chi eich hun drwy ganu!

I gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â Tanya Walker: 7723 016837 / tanyawalkermusic@hotmail.com

## Mid Wales Dance Academy

Theatr B! yw prif leoliad Academi Ddawns Canolbarth Cymru, ysgol ddawns fawr breifat â thros 300 o ddisgyblion, o 3 oed i oedolion. Maen nhw hefyd yn cynnig ystod o ddosbarthiadau gan gynnwys bale a tap, hiphop a stryd, a chynigir hefyd arholiadau gyda'r Royal Academy Of Dance, a'r Inter- national Dance Teachers Association.

For further information please contact Lesley Walker at info@mwda.co.uk

# Friends & Patrons

Rydyn ni wedi gwrando ar adborth gan ein Cyfeillion, Noddwyr a chynulleidfaoedd, ac rydyn ni bellach yn falch o allu cyhoeddi ein bod ni'n ail-lansio ein cynllun Cyfeillion a Noddwyr.

Mae lleoliad Theatr Brycheiniog yn unigryw – yng nghesail tirweddau delfrydol Bannau Brycheiniog, ac o dan Warchodfa Awyr Dywyll gyda'r ansawdd gorau drwy Brydain gyfan.

Ein nod yw dathlu ein cyswllt â'r amgylchedd, felly rydyn ni wedi enwi ein cynllun tair lefel i Gyfeillion ar ôl tri chopa uchaf Bannau Brycheiniog – **Pen y Fan**, **Corn Du** a'r **Cribyn**.

Enw ein Cynllun Noddwyr yw '**Seren**' i gydnabod y Warchodfa Awyr Dywyll a'r cytserau deniadol sy'n tywynnu dros ein theatr wych.

## Seren

**Rhoddion dros £1000**

-Cael eich enwi fel noddwr y theatr ar ein gwefan
-Taith flynyddol o gwmpas y theatr
-Pecyn aelodaeth
-Cylchlythyr tymhorol
-Gwahoddiad i lansiad y tymor
-Archebu blaenoriaeth (ar sioeau dethol)
- Gostyngiad ar bris parcio car

## Cribyn

**£2.50 y mis neu £30 y flwyddyn**

Wedi'i gynllunio ar gyfer pobl dan 30 oed Pecyn yn cynnwys:

- Taith flynyddol o gwmpas y theatr
- Pecyn aelodaeth
- Cylchlythyr tymhorol
- Gwahoddiad i lansiad y tymor
- Archebu blaenoriaeth (ar sioeau dethol)
- Gostyngiad ar bris parcio car
- Car parking discount

## Pen y Fan

**£10 y mis neu £120 y flwyddyn**

Pecyn yn cynnwys:


-Cael eich enwi fel cyfaill y theatr ar ein gwefan
-Gostyngiad o 5% ar bris llogi ystafell
-Gostyngiad o 10% yn y caffi / bar
-Taith flynyddol o gwmpas y theatr
-Pecyn aelodaeth
-Cylchlythyr tymhorol
-Gwahoddiad i lansiad y tymor
-Archebu blaenoriaeth (ar sioeau dethol)
- Gostyngiad ar bris parcio car

## Corn Du

**£5 y mis neu £60 y flwyddyn**

Pecyn yn cynnwys:

-Gostyngiad o 10% yn y caffi / bar
-Taith flynyddol o gwmpas y theatr
-Pecyn aelodaeth
-Cylchlythyr tymhorol
-Gwahoddiad i lansiad y tymor
- Archebu blaenoriaeth (ar sioeau dethol)
- Gostyngiad ar bris parcio car




Bydd y strwythur newydd yn eich galluogi i barhau i gefnogi'r theatr ac yn helpu estyn eich arian ymhellach am y bydd yn ein galluogi i hawlio cymorth rhodd ar eich rhodd, gan godi 20% yn ychwanegol i'r elusen dros ben eich cyfraniad.

Castell Howell



Yn cefnogi digwyddiadau a cymunedau Cymru
Supporting Welsh communities and events

The Celtic Pie & Pasty Co.
Farmfresh
authentic curries & world foods
Mario's Luxury Welsh Dairy Ice Cream
Caffeleto
Celtic Coast Fish Company

01269 846080 | www.chfoods.co.uk


Mae'r wybodaeth a geir yn y llawlyfr hwn yn gywir adeg mynd i'r wasg. Mae Theatr Brycheiniog yn cadw'r hawl i wneud newidiadau os oes angen. I weld telerau ac amodau llawn, edrychwch ar ein gwefan os gwelwch yn dda.

## GWYBODAETH SWYDDFA DOCYNNAU

Mae ein Swyddfa Docynnau ar agor 9am-5pm bob dydd ac yn hwyrach ar noson sioe. Gellir archebu tocynnau ar lein hefyd ar www.brycheiniog.co.uk

## AD-DALIADAU A CHYFNEWID TOCYNNAU

Efallai na ellir ad-dalu pris tocyn oni bai fod y digwyddiad yn cael ei ganslo. Gellir cyfnewid tocynnau am rai i sioe arall am ffi newid o £2 y tocyn.

## FFI GWEINYDDOL

Rhaid talu £1.50 o dâl gweinyddol ar bob tocyn ar gyfer pob perfformiad a hyrwyddir gan Theatr Brycheiniog. Mae'r taliad hwn yn cyfrannu at dalu am ein costau manwerthu tocynnau a phrosesu taliadau'n ddiogel.

## GOSTYNGIADAU

Ar gyfer rhai perfformiadau, mae'n bosib y gallwn gynnig pris gostyngol i bobl dan 16 oed, deiliaid cerdyn Equity, aelodau HYNT, aelodau'r lluoedd arfog, pobl a gofrestrwyd yn anabl, yr henoed (60+) a myfyrwyr. Efallai y gofynnir i chi roi tystiolaeth o ran sut rydych chi'n ateb y meini prawf hyn.



## CYFRANNU

Wyddech chi ein bod ni'n elusen gofrestredig? Gallwch ein cefnogi a helpu i barhau i danio creadigrwydd y genhedlaeth nesaf, uno cymunedau ar draws Canolbarth Cymru a'r ardaloedd cyfagos, grymuso artistiaid a rhannu holl lawenydd y theatr drwy wneud cyfraniad. Bydd pob swm, waeth fawr neu fach, yn cael ei werthfawrogi'n fawr iawn.

Gallwch wneud cyfraniad drwy ein gwefan www.brycheiniog.co.uk/en/support-us, drwy ddod yn Gyfaill neu Noddwr, drwy ein blwch rhoddion yn y cyntedd neu drwy rodd neges destun.

I roi drwy neges destun, tecstiwch y gair THEARTB ac yna faint eich rhodd at 70450. Texts will cost the donation amount plus one standard network rate message. Thank you for your support.
Rhif elusen 1005327

## CAR PARKING

Dyma brisiau talu am barcio ceir:

| | |
|---|---|
| Hyd at 1 awr: | £1.20 |
| 1-2 awr: | £2 |
| 2-4 awr: | £3.25 |
| Dros 4 awr (Drwy'r dydd): | £4 |
| Rhwng 5.30pm-8am: | £1 |
| Campyrfans dros nos: | £12 |

Mae peiriant talu'r maes parcio'n derbyn arian parod neu gerdyn. Neu lawrlwythwch ap RingGo ar eich ffôn a'i ddefnyddio i dalu. Rhif ein maes parcio yw 9129.

Derbynnir cardiau yn ein Swyddfa Docynnau hefyd, ble gellir rhoi tocyn ar gyfer eich cerbyd. Ceir cysgod i feiciau y tu allan i'r lleoliad.

## ACCESS

- Lleoedd i ddefnyddwyr cadair olwyn yn seddau'r llawr a'r llofft
- Mynediad ar y gwastad i bob ardal gy-
- Lift i bob lefel
- Mynediad i doiledau ar bob llawr
- Croesewir cŵn mynediad
- Dolen sain bersonol / clustffonau
- Parcio ceir penodol

## PERFFORMIADAU HAMDDENOL

Addasiadau i'r sioe a gynlluniwyd yn benodol i unrhyw un a allai gael y profiad theatrig arferol yn ormod, neu a fyddai'n buddio o gael amgylchedd mwy hamddenol, yw'r rhain. Yn ystod perfformiad hamddenol bydd Golau'r Tŷ'n para ynghyn ac ni ddefnyddir golau strôb a bydd synau uchel yn cael eu dileu neu leihau. Dyw gwneud sŵn yn ystod perfformiad ddim yn cael ei wgu arno ac mae rhyddid i'r gynulleidfa fynd i mewn ac allan yn ôl y galw. Rydyn ni hefyd yn darparu lle i ymneilltuo yn yr oriel os oes angen amser i ffwrdd o'r prif ddigwyddiad ar aelodau'r gynulleidfa.

## MAE THEATRE B YN CROESAWU TEULUOEDD

Dyw theatrau ddim yn cael eu gweld yn draddodiadol fel mannau sy'n croesawu babis na phlant, ond yma yn Theatr Brycheiniog rydyn ni'n daer o blaid newid hynny. Mae ein rhaglen yn cynnwys sioeau i gynulleidfaoedd ifanc yn rheolaidd, ac rydyn ni'n gwneud ein gorau i sicrhau ein bod ni'n darparu'r lle delfrydol ble gall eich teulu deimlo'n gyfforddus a mwynhau theatr fyw. Rhestrir y sioeau hyn hefyd fel 'perfformiadau hamddenol', sy'n golygu ein bod ni nid yn unig yn 'llacio' rheolau arferol ein cynulleidfa, ond y gallwch chi 'ymlacio' a mwynhau'r perfformiad hefyd.

Gall babis mewn breichiau dan 2 oed fynd am ddim

## HYNT

Mae Theatr Brycheiniog yn falch o gefnogi Cynllun HYNT. Gall aelodau'r cynllun ddod â gofalwr am ddim i'r rhan fwyaf o berfformiadau (ac eithrio digwyddiadau llog). Cred HYNT yw bod celf a diwylliant ar gyfer pawb ac os oes gennych chi nam neu anghenion mynediad penodol, y dylai mynd i'w weld barhau i fod yn hawdd a hygyrch.

**Advertise with us**
Email: info@brycheiniog.co.uk

# Amserlen Perfformiadau

*Tynnwch fi a 'nghadw!*

## Mehefin

Maw 4th
7pm
**The Misadventures of Pinocchio**
Tudalen 3

Maw 4th
7.20pm (Encore)
**Message in a Bottle**
Tudalen 3

Gwe 7th
10am
**Cerdyn Post o Wlad y Rwla**
Tudalen 3

Sad 8th
7.30pm
**And Finally Phil Collins**
Tudalen 3

Maw 11th
7.15pm (Live)
Sul 16th
2pm (Encore)
**ROH Live: Andrea Chenier**
Tudalen 4

Iau 13th
7pm (Encore)
**National Theatre Live: Nye**
Tudalen 4

Gwe 14th
1.15pm
**Seren Stars Showcase**
Tudalen 4

Gwe 14th
8pm
**Comedy Club**
Tudalen 5

Sad 29th
7.30pm
**Brecon to Broadway**
Tudalen 5

## Gorffennaf

Maw 2nd
7.30pm
Mer 3rd
1.30pm
**Romeo a Juliet**
Tudalen 5

Iau 4th
7pm
**Crossing Borders with WNO Orchestra**
Tudalen 6

Sad 6th
7.30pm
**Oh What A Night!**
Tudalen 6

Sad 13th
6pm
Sun 14th
2pm & 5pm
**MWDA Spectacular Showcase**
Tudalen 6

Iau 18th
7.30pm
**Goodwill Zulu Festival**
Tudalen 7

Gwe 19th
7.30pm
**The Zulu Welsh: A Symphony of Voices**
Tudalen 7

Mer 24th
7.30pm
**Tam Lin Retold**
Tudalen 7

Sul 28th
7.30pm
**This Flight Tonight**
Tudalen 7

## Awst

Sad 24th
1pm & 3pm
**The Great Insect Games**
Tudalen 8

## Medi

Gwe 20th
7.30pm
**An Audience with Shane, Lee & Hookie**
Tudalen 9

Sul 22nd
7.30pm
**The Songs of Leonard Cohen**
Tudalen 10

Maw 24th
7.30pm
**Iphigenia in Splott**
Tudalen 10

Sul 29th
7.30pm
**The Chicago Blues Brothers**
Tudalen 10